# DATGANIADAU BARN YSGRIFENEDIG / WRITTEN STATEMENTS OF OPINION

## A GYFLWYNWYD / TABLED ON 29/06/2005

R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant
R Signifies the Member has declared an interest

## OPIN-2005-0036 Gorllewin y Sahara / Western Sahara

**Codwyd gan / Raised By:** Rhodri Glyn Thomas

**Tanysgrifwyr / Subscribers:**

Alun Ffred Jones

### Gorllewin y Sahara

Yn wyneb y cysylltiadau clos rhwng pobl Cymru a phobl Gorllewin y Sahara, mae'r Cynulliad yn nodi adroddiadau diweddar ynglŷn â phrotestiadau, arestiadau, diflaniadau ac artaith yn ardal Gorllewin y Sahara sydd wedi ei meddiannu; rydym yn galw ar Lywodraeth y DU i gondemnio'r gweithrediadau hyn gan Morocco ar unwaith, ac fel aelod parhaol o Gyngor Diogelwch y Cenhedloedd Unedig, i gynnig, yng Nghyngor Diogelwch y CU, amserlen benodol y mae'n rhaid i Morocco ei dilyn er mwyn derbyn Cynllun Baker, a gymeradwywyd yn llawn gan y Cyngor Diogelwch yn 2003; ac yn mynnu bod y llywodraeth yn gweithredu i roi'r cynllun ar waith a pheidio â chaniatáu i Morocco esgeuluso ei rhwymedigaethau dan gyfraith ryngwladol.

### Western Sahara

With reference to the close links between people of Wales and people of the Western Sahara; the Assembly notes recent reports of demonstrations, arrests, disappearances and torture in occupied Western Sahara; we call on the UK Government to condemn these actions by Morocco immediately, and as a permanent member of the UN Security Council, to propose at the UN Security Council a deadline for Morocco to accept the Baker Plan, which was fully endorsed by the Security Council in 2003; and demands the government act to implement the plan and not allow Morocco to evade its obligations under international law.